

Crynodeb o'r Argymhellion

Ar derfyn y cyfnod ymgynghori, gobaith y Comisiwn yw y daw'r argymhellion hy – wedi eu coethi, efallai, gan ein cyd-ddoethineb – yn gynigion at y dyfodol.

1. Mae'r Comisiwn yn **gwahodd** y pum Eglwys Gyfamodol i feddwl amdanynt eu hunain fel yr Eglwys yn Uno yng Nghymru.

2. Mae'r Comisiwn yn **argymell**:
 - y bydd gan yr Eglwys yn Uno naw awdurdodaeth – y chwe esgobaeth Anglicanaidd bresennol ynghyd ag awdurdodaeth Fethodistaidd, awdurdodaeth Bresbyteraidd ac awdurdodaeth Ddiwygiedig Unedig/ Fedyddiedig Gyfamodol, a wahoddir i ethol esgob bob un;
 - llunio disgrifiad o swyddogaeth yr esgob y bydd pob un o'r pum Eglwys Gyfamodol yn gytûn arno;
 - cysegru'r esgob i'r hen olyniaeth esgobol, hynny yw, ei ordeinio trwy arddodiad dwylo gan o leiaf dri esgob sydd eu hunain yn rhan o'r hen olyniaeth esgobol;
 - mai'r esgob fydd yn ordeinio pawb sydd i fod yn weinidog oddi mewn i'w awdurdodaeth;
 - y bydd yr esgob yn esgob yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru ac y bydd yn rhannu colegoldeb a chyflawn gydgynnewid â holl esgobion eraill yr Eglwys honno;
 - y bydd esgobion y naw awdurdodaeth yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru yn ymgynghori â'i gilydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn;
 - bod yr holl weinidogion presennol yn cytuno i dderbyn arddodiad dwylo gan o leiaf un esgob Anglicanaidd ac o leiaf un esgob yn cynrychioli'r traddodiadau eraill yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru. Ystyrid hyn nid yn ordeinio esgobol ond yn gam ymlaen i weinidogaeth gyfamodol lawn.

3. Yn dilyn derbyn y gwahoddiad a amlinellir yn 1. uchod, mae'r Comisiwn yn **argymell**:
 - y bydd pob awdurdodaeth sy'n aelod yn parhau, am y tro, i weithredu ei ffurflywodraeth eglwysig bresennol;
 - cynnal Cydgynulliad yr Eglwys yn Uno yng Nghymru yn flynyddol; a
 - gofyn i arweinwyr, cyfreithwyr a gweinyddwyr yn cynrychioli'r pum Eglwys sy'n aelodau lunio, cyn pen cyfnod o bum mlynedd, Gynllun a Chyfansoddiad i'r Eglwys yn Uno wedi'u seilio ar yr argymhellion yn Adran 5 Adroddiad y Gweithgor ar Lywodraeth Eglwysig.

4. Mae'r Comisiwn yn **argymell** fel arfer da arfer Eglwys Loegr o benodi canoniaid cadeirlannau o enwadau eraill.
5. Mae'r Comisiwn yn **argymell** bod yr eglwysi sy'n aelodau ohono yn archwilio gyda'i gilydd swyddogaeth diaconiaid i edrych a allant ddod i farn gyffredin ar y mater.
6. Mewn Partneriaethau Eciwmenaid Lleol, mae'r Comisiwn yn **argymell**:
 - annog ond nid gorfodi gweinidogion i fynychu llys enwad nad ydynt yn perthyn iddo; a
 - bod eglwysi mewn Partneriaeth Eciwmenaid Leol yn ymddiried gweinyddu'r Bartneriaeth i Gorff Noddi a benodwyd o blith aelodau Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol neu Cytûn.